

Does neb ond Ef...

Yn ystod tymor y Garawys cawsom ein tywys i feddwl am Iesu fel cyflawniad addewidion Duw i Israel a'r byd. Ond yn fwy na hynny gallwn ei adnabod fel cyflawniad o bwrpas Duw trwy Israel. Daeth Ef ei hun yn "Israel" dirprywol. Yn y myfyrdod hwn mae'r Parch Carwyn Siddall yn ein tywys i feddwl am Iesu fel cyflawniad gobeithion brenhinol Israel.

Rhagfynegi Genedigaeth Iesu (Luc 1:26-38)

Mae'r bennod gyntaf o Efengyl Luc yn frith o gyfeiriadau am gyflawni geiriau'r addewid a roddwyd gan Dduw yn yr Hen Destament, ac yn yr adnodau penodol hyn, lle y cawn hanes Gabriel yn cyhoeddi i Mair y byddai'n beichiogi drwy'r Ysbryd Glân, cawn ein cyflwyno i sawl man yn yr Hen Destament i ategu'r gwirionedd mai Mab Duw ydoedd.

Yn sicr, byddai clywed y cyfarchiad hwn wedi bod yn fraw i Mair, ond gyda'i hadnabyddiaeth a'i ffydd yn Nuw, a'i hymwybyddiaeth o'i addewid am Waredwr, gwyddai hefyd ei braint.

Un o deulu Dafydd

Yng nghyfarchiad yr angel yn adnodau 30-33, gwelwn gyfeiriad at orsedd Dafydd. Gwyddom, o edrych ar fanylion llinach Iesu a geir ym Mathew 1, ei fod yn ddisgynydd i Dafydd, a hyn felly yn cadarnhau addewid Duw. Er mwyn olrhain yr addewid, mae'n bosib mai un o'r cofnodion cynharaf ohono yw'r hyn a geir yn 2 Samuel 7. Yma, yn neges Nathan i Dafydd wrth iddo ystyried codi teml i'r Arglwydd, addewir gan Dduw, "codaf blentyn i ti ar dy ôl, un yn hanu ohonot, a gwnaf ei deyrnas yn gadarn" (2 Sam. 7:12). Wrth gwrs, gwyddom i Solomon olynu ei dad, ond yn sicr, gellir credu mai addewid am Waredwr sydd yma. Erbyn cyfnod y proffwyd Ezeia, gwelir sawl cyfeiriad at yr addewid hwn, er enghraifft ym mhennod 9, ac yna ym mhennod 11, ble y dywedir "O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn, ac fe dyf cangen o'i wraidd ef ... Ac yn y dydd hwnnw bydd gwreiddyn Jesse yn sefyll fel baner i'r bobloedd; bydd y cenhedloedd yn ymofyn ag ef, a bydd ei drigfan yn ogoneddus" (ad. 1 a 10).

Addawai Duw y bydd coeden deulu Jesse, tad Dafydd, yn tyfu, ac o'r goeden ffrwythlon hon y daw'r Meseia. Addawai hefyd, pryd y cyflawnir hyn, y bydd pawb yn heidio ato o bob cenedl dan y nef, a'i arddel yn Waredwr. Cadarnheir hyn yn Llythyr Paul at y Rhufeiniaid pan welwn



Llun Gwreiddyn o Gyff Jesse gan Jan Wierix (1544-1625) sgythriad, 1573; Rijksmuseum Amsterdam*

Meddai'r angel wrthi, "Paid ag ofni, Mair, oberwydd cefaist ffafr gyda Duw; ac wele, byddi'n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu. Bydd hwn yn fawr, a Mab y Goruchaf y gelwir ef; rhydd yr Arglwydd Dduw iddo orsedd Dafydd ei dad, ac fe deyrnasa ar dŷ Jacob am byth, ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd." Luc 1:30-33

Paul yn annog y credinwyr Iddewig a'r rhai o blith y Cenhedloedd i dderbyn ei gilydd fel y cawsant hwy eu derbyn gan Grist (gweler Rhufeiniaid 15:12).

Had y wraig

Yn ymatebiad Mair i'r angel, gwelwn ei chwestiwn am sut y gall hyn fod, ond dywed yr angel mai gwaith yr Ysbryd yw hyn, ac mai cenhedliad gwyrthiol o Dduw

ydoedd. O'r cychwyn cyntaf, o gwmp dynoliaeth a barn Duw yn Genesis 3, gwyddom mai o had y wraig y daw pobl Dduw, a dyma hi, ei lawforwyn, Mair, yn cael ei hysbysu y bydd yn beichiogi ac yn geni'r Gwaredwr, sef Mab Duw ei hun. Hwn yw'r Emaniwel, a thrwy ein hadnabyddiaeth o Iesu, down i weld ac adnabod Duw.

Duw'r posibiliadau

Wrth fynd ymlaen i hysbysu Mair o feichiogwydd Elisabeth, pwysleisia'r angel nad oes "dim yn amhosib gyda Duw" (ad. 37). Ceir adlais hyfyd o hanes Duw yn addo mab i Abraham yn y geiriau hyn pan ofynnwyd iddo yntau, "A oes dim yn rhy anodd i'r Arglwydd?" yn Genesis 18:14. O'r cychwyn cyntaf, gwelwn Dduw'r creawdwr yn rhoi bod i bopeth. Duw'r posibiliadau ydyw, sy'n gwneud yr hyn sy'n ymddangos i ni'n amhosib yn bosib. Er ei bod yn ddigon posib i Mair brofi dryswch ar gychwyn yr hanes, erbyn y diwedd, gwelai'r cwbl yn eglur, ac mai gwaith Duw oedd hyn.

Paratoi am y Pasg

Dyma ran gyfoethog o'r Efengyl sy'n ein sicrhau ninnau mai Iesu'n wir oedd "y Gair a ddaeth yn gnawd, a phreswyllo yn ein plith yn llawn gras a gwirionedd" (Ioan 1:14). Ac o ystyried y gwirioneddau hyn, gallwn ninnau gael ein hatgoffa o'n perthynas ni â Duw yng Nghrist. Yn y cyfnod hwn o baratoi at ddatlu buddugoliaeth Iesu ar angau a'r bedd, a'i fod eto'n fyw, diolchwn mai o Dduw ydoedd, wedi ei ragfynegi o'r cychwyn, a fydd yn teyrnasu hyd dragwyddoldeb. Drwyddo Ef y dynon ninnau at y Tad, a chydag Ef, nid oes dim yn amhosib. Â hithau yn dymor o ymbaratoi at y Pasg, paratowng yng ngoleuni ei addewid a'i fuddugoliaeth i gyhoeddi'r newyddion da hwn i bawb, ac ymgysgru o'r newydd, fel Mair, drwy ddatgan "Dyma lawforwyn yr Arglwydd; bydded i mi yn ôl dy air di" (ad. 38)

(*<https://colonialart.org/artworks/2880aa> Hawffraint: "1333A." Project for the Engraved Sources of Spanish Colonial Art (PESSCA). 10 Mawrth 2020. colonialart.org.)